

## **COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWDYD AR 13 o ORFFENNAF 2020 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH**

**Presennol:** Margaret Rees ( yn y gadair), Tyssul Evans, Alan Lewis, Geraint Rosser, Linda Williams, Caroline Williams, Aled Williams, a'r Clerc, Glyndwr Prideaux

**Ymddiheuriadau:** Ian Evans, Heddwyn Jones, Tracey James, Geoff Hewitt a Meic Bowen

**2408** Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Nodwyd bod y Cynghorydd Ian Evans yn cael trafferth cysylltu â'r Cyfarfod trwy'r ffon.

### **2409 Cofnodion**

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 02/03/2020 a 22/06/2020 fel rhai cywir.

### **2410 Materion yn codi.**

Tud 1. Cofnod Rhif 2379 - Co-op Pontiets - Nodwyd bod y Co-op ym Mhontiets yn agor cyn bo hir. Penderfynnwyd cysylltu gyda Rhys Price ynglŷn â grantiau tuag at Barc Pontiets.

Tud 1. Cofnod Rhif 2379 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Cafwyd adroddiad gan y Clerc.

Arhoswn am ymateb pellach oddiwrth y Cyngor Sir

Tud 1. Cofnod Rhif 2379 - Swyddfa Bost Carwe - Cysylltw'n eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.

Tud 1. Cofnod Rhif 2379 - Goleuadau Tai Ffoslas - Penderfynwyd ysgrifennu eto at Gwmni Persimmon.

Tud 1. Cofnod Rhif 2390 – Coed Ffoslas – Nodwyd nad oes Cwmni yn barod i casglu Baw Cwn.

Tud 1. Cofnod Rhif 2391 - Llwybr Treftadaeth Pontiets - Arhoswn am ymateb oddiwrth Bassett & McGregor.

## **Gohebiaeth**

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

**2411** Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Cais am gyfraniad tuag at Byst Pêl-droed newydd - Penderfynwyd gofyn am eglurhad pellach.

**2412** Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe - Cyfraniad tuag at Safle Ail-gylchu - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £500

**2413** Parc Llangyndeyrn – Penderfynwyd danfon cyfraniad o £700.

Gohebiaeth gyffredinol :-

**2414** Ysgol y Fro - Enwebu Llywodraethwr ar ran yr Awdurdod Llai - Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Caroline Williams.

**2415** Ffederasiwn Ysgolion Carwe-Gwynfryn-Ponthenri - Enwebu Llywodraethwr ar ran yr Awdurdod Llai - Penderfynwyd enwebu'r Cynghorydd Geraint Rosser.

**2416** Ciosg Ffon Crwbin – Defnydd fel Gorsaf Newid Llyfrau – Cafwyd cais i ddefnyddio'r Ciosg yng Nghrwbini. Penderfynwyd rhoi caniatâd ar yr amod bod y defnyddwyr yn edrych ar ôl y Ciosg.

**2417** Cwmni Yswiriant Zurich - Yswiriant y Cyngor am y flwyddyn 13/07/2020 hyd at 12/07/2021 - Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r swm o £1189.10.

**2418** Cynllun Cyfaiil – Nodwyd gyda diolch y llythyr a dderbyniwyd oddiwrth Adam Price A.S.

## Ceisiadau Cynllunio

**2419** a) Rhif y Cais - W/40777 – Mr. & Mrs. Bowen – 11, Heol Bancyroffis, Pontiets – Garej/Ystafell Gardd/Ystafell Adloniant - Dim Gwrthwynebiad.

**2420** - Derbyniwyd cwyn oddiwrth rhai o drigolion Brongwendraeth a Brynseilo Carwe ynglŷn â phroblem unigolion yn torri coed a llosgi yn hwyr y nos. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ar eu rhan.

**2421** - Derbyniwyd cwyn oddiwrth rhai o drigolion Parc Mansant/Heol y Meinciau a Phennaeth Ysgol Gwynfryn ynglŷn â Cwn stwrlyd. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir ar eu rhan.

## Gwaharddiad y Cyhoedd

**2422** Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

## Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

**2423** Derbyniwyd adroddiad ariannol Misoedd Mawrth/Ebrill/Mai a Mehefin 2020. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

## Adroddiad Ariannol Misol

**2424** Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

- a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Mawrth/Ebrill/Mai/Mehefin)
- b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mawrth/Ebrill/Mai/Mehefin)
- c) Cydnabyddiaeth y Syrfêwr - £110.00 (Mis Mawrth/Ebrill/Mai/Mehefin)
- ch) HMRC (Treth)- £89.20 (Mis Mawrth)
- d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mawrth/Ebrill/Mai/Mehefin)
- dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Mawrth)
- e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mawrth)- £183.17
- f) Inc i'r Llungopiwr - £76.52
- ff) Nofis Cyflymder Ffoslas - £1185.60
- g) Pads & Batri – Defrib.Pontiets - £83.50
- ng) Glanhau Parc Gwynfryn - £300.00
- h) Paentio Cysgodfa Bys Maesywern - £500.00
- i) Cyngor Sir Gar – Hanner Golau - £6.79
- l) Cyngor Sir Gar - Trydan (Golau) - £8809.06
- m) Cyngor Sir Gar – Gwaith ym Marc Carwe - £31.00
- n) Wicksteed – Rhan-dal Gwaith ym Marc Gwynfryn - £9165.00
- o) Seindorf Arian Crwbin - £600.00
- p) Wicksteed – Rhan-dal Gwaith ym Marc Gwynfryn - £3750.34
- r) Nwyddau'r Swyddfa - £25.69
- rh) Torri Gwair – Parc Carwe - £50.00
- s) HMRC (Treth) - £89.20 – (Mis Ebrill)
- t) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Ebrill) - £182.00
- u) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau - £9.86
- w) Paentio Blwch Ffon Pedair Heol - £375.00
- 1) Torri Gwair – Parc Carwe - \*4 - £200.00
- 2) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 – (Mis Ebrill)
- 3) Fandaliaeth Toiledau'r Meinciau - £280.00
- 4) Atgyweirio Sedd ym Mhedair Heol - £300.00
- 5) HMRC (Treth) - (Mis Mai) - £89.40
- 6) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mai) - £187.89
- 7) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau - £26.44
- 8) Torri Gwair – Parc Carwe \* 2 - £100.00

- 9) Archwiliad Mewnol y Cyngor - £150.00
- 10) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 – (Mis Mai)
- 11) Torri Llwybr – Heol Bancyroffis - £50.00
- 12) Safle Ail-gylchu Meinciau (2019) - £500.00

**Cyfarfod nesaf:- 7 o Medi 2020**

**Llofnodwyd..... CADEIRYDD**

**Dyddiad.....**